

Prosiect Atal Trais Difrifol (Cymru) Cyllid Cymunedol

Fel ymateb i gynnydd yn nifer y troseddau cyllyll, troseddau gynnew ac achosion o ddynddiad yn y DU, mae Strategaeth Trais Difrifol (2018) y Swyddfa Gartref yn rhoi pwyslais ar ymyrryd yn gynnew ac atal, er mwyn mynd i'r afael ag achosion trais ac atal pobl ifanc rhag cymryd rhan mewn troseddau. Mae'r Strategaeth yn nodi dull gweithredu aml-faes gyda phartneriaethau ar draws nifer o sectorau gan gynnwys addysg, gwasanaethau ieuencid, gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, tai, a gwasanaethau dioddefwyr.

Er mwyn cyflawni agweddau ar y Strategaeth a chefnogi gweledigaeth Cynllun yr Heddlu a Throseddau, mae Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yng Nghymru yn gweithio mewn partneriaeth i gyflawni rhaglen gyllid (Mehefin 2019 – Mawrth 2020) i archwilio dulliau gweithredu o ymyrryd yn gynnew ac atal sy'n gysylltiedig â gwaith ieuencid.


Nod y rhaglen gyllid

Nod y Gronfa yw darparu cymorth ar gyfer rhaglenni ymyrryd yn gynnew ac atal sy'n gwneud y canlynol:

- Darparu gwasanaethau i gefnogi ac atal pobl ifanc rhag cymryd rhan mewn troseddau drwy gefnogi gweithgareddau cadarnhaol;
- Cyflawni canlyniadau cadarnhaol ar gyfer pobl ifanc, gan ganolbwyntio ar fynd i'r afael â ffactorau risg sy'n gysylltiedig â thrais difrifol;
- Adeiladu ar ein dealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio'n ymarferol wrth fynd i'r afael â'r ffactorau risg hyn a datblygu'r ddealltwriaeth honno;
- Llywio'r broses o wella gweithio mewn partneriaeth leol, amlasiantaethol; ac yn bwysicaf oll,
- Lleihau'r lefelau o drais a throseddau difrifol.

Diben y gronfa yw mynd i'r afael â thrais difrifol a'i atal, ond gall gynnwys cynyddu gwydnwch mewn pobl ifanc rhag dod yn ddiodefwr, drwy fynd i'r afael â ffactorau risg a diogelwch sy'n gyffredin mewn amrywiaeth eang o fgythiadau a gwendidau. Mae hyblygrwydd i fod yn arloesol, rhoi tystiolaeth o dulliau gweithredu newydd, neu ddatblygu gweithgareddau a mentrau presennol llwyddiannus.

Rydym am gyllido prosiectau sy'n gweithio gyda phobl ifanc rhwng 11 ac 18 oed yn bennaf ond byddwn yn ystyried prosiectau â phobl ifanc hyd at 25 oed, a all fod mewn perygl o fod yn rhan o drosedd, fel diodefwr a/neu droseddwr.



Canlyniadau allweddol y prosiect:

- Bydd pobl ifanc yn gallu nodi dyheadau a nodau cadarnhaol
- Bydd pobl ifanc yn teimlo'n fwy diogel
- Bydd gan bobl ifanc lesiant gwell
- Bydd pobl ifanc yn fwy gwybodus ynglŷn â ble i geisio cymorth

Mae cyllid ar gael ar gyfer sefydliadau sy'n gweithio'n uniongyrchol â phobl ifanc:

Dyfed / Powys

Mae £28,000 ar gael o'r gronfa ar gyfer y rhanbarth hwn

Gellir ymgeisio am grant gwerth hyd at £5,000 gyda ffocws ar weithgareddau ataliol gyda phobl ifanc.

Gogledd Cymru

Mae £60,000 ar gael o'r gronfa ar gyfer y rhanbarth hwn

Gellir ymgeisio am grant gwerth hyd at £20,000, ond bydd ceisiadau mwy yn cael eu hystyried os darperir digon o dystiolaeth i gefnogi'r cais

De Cymru

Mae £130,000 ar gael o'r gronfa ar gyfer y rhanbarth hwn


Gellir ymgeisio am grant gwerth hyd at £30,000

Gwent

Yn seiliedig ar weithgarwch cyfredol yn y rhanbarth, mae eisoes gan Went bartneriaid i gyflwyno gweithgareddau'r gronfa, gyda OPCC wrthi'n datblygu ei fframwaith a phrosesau comisiynu ar hyn o bryd. Darperir gwybodaeth ar unrhyw grantiau sydd ar gael yng Ngwent maes o law.

Croesewir ceisiadau gan brosiectau a leolir mewn un ardal Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau, ond croesewir hefyd geisiadau sy'n cwmpasu mwy nag un ardal Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau, a chânt eu hasesu ar effeithiolrwydd y dull gweithredu a gynigir, yr ansawdd a'r gwerth am arian.

Costau Cymwys	Costau anghymwys
<ul style="list-style-type: none"> • Swyddi staff newydd i gyflawni'r prosiect • Oriau ychwanegol i staff presennol er mwyn cyflawni'r prosiect • Gweithgareddau prosiect • Ffioedd proffesiynol • Gwaith cyfalaf • Gwerthusiad • Dyrchafiad 	<ul style="list-style-type: none"> • Unigolion a masnachwyr unigol • Sefydliadau na chawsant eu sefydlu yn y DU • Prynu cerbydau • Costau wrth gefn • Gwaddolion • Eitemau sydd o fudd i unigolion yn bennaf • Gweithgareddau gwleidyddol neu grefyddol • Prosiectau neu weithgareddau y mae gan y wladwriaeth rwymedigaeth gyfreithiol i'w darparu



Caiff ceisiadau eu hasesu yn erbyn y meini prawf canlynol:

- Nodau clir sy'n cyfrannu at gyflawni'r Strategaeth Trais Difrifol, â chynllun realistig a chyflawnadwy o adeg ei roi ar waith hyd at ei gwblhau.
- Cynnwys Rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys ymgynghoriad a chyfraniad gan naill ai'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol leol, Tîm Troseddau Ieuenctid neu Dîm Plismona yn y Gymdogaeth. Rhoddir blaenoriaeth i sefydliadau gwirfoddol neu gymunedol sy'n gysylltiedig â phartneriaethau amlasiantaethol sy'n dangos ffyrdd arloesol o weithio gyda chymunedau. Os byddwch yn gwneud cais fel partneriaeth neu gonsortiw, mae'n rhaid mai'r prif sefydliad fod yw'r prif ymgeisydd, sy'n gyfrifol am reolaeth ariannol.
- Rôl pobl ifanc yn y gwaith o ddatblygu eich prosiect, a sut rydych wedi nodi'r angen y bydd eich prosiect yn mynd i'r afael ag ef.
- Monitro a gwerthuso, casglu data sylfaenol meintiol ac ansoddol i asesu effaith y prosiect a'r newidiadau y mae'r prosiect wedi effeithio arnynt.
- Ystyried sut y gallech barhau i gyllido'r prosiect y tu hwnt i'r rhaglen gyllid.
- Gall gwasanaethau a llenyddiaeth gael eu cynhyrchu a'u cynnig yn ddwyieithog.
- Diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed, gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill.

Y Broses Gwneud Cais

17 Mai 2019	Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau
20 – 24 Mai 2019	Llunio rhestr fer o ymgeiswyr (CWVYS)
17 Mai – 7 Mehefin 2019	Penderfyniadau gan Fyrddau Gweithredu Prosiectau Lleol
Yr wythnos yn dechrau 10 Mehefin 2019	Rhannu'r canlyniadau â sefydliadau
Yr wythnos yn dechrau 17 Mehefin 2019	Prosiectau cymeradwy yn dechrau (mae'n rhaid i bob prosiect ddychwelyd cytundebau grant wedi'u llofnodi cyn dechrau'r prosiect)

Anfonwch eich cais wedi'i gwblhau i:

Prosiect Atal Trais Difrifol
Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol
Baltic House, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd CF10 5FH

Fel arall, byddwn yn derbyn y cais drwy e-bost â llofnod electronig, ond cyn y gallwn dderbyn eich cais yn swyddogol a'i gofrestru, mae'n rhaid i ni hefyd dderbyn copi caled o'r ffurflen gais wedi'i llofnodi yn y cyfeiriad a nodwyd uchod.

Sicrhewch mai 'SVPP Application Form' yw teitl eich neges e-bost ac anfonwch hi at: Kathryn@CWVYS.org.uk